POLICE AND CRIME PANEL

PANEL HEDDLU A THROSEDD

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

## ADRODDIAD YNGLŶN AG ADRODDIAD BLYNYDDOL COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

### Cefndir

Gwnaed yr adroddiad hwn yn unol â dyletswydd statudol y Panel a gynhwysir yn Adran 28 (4)(d) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

### Adolygiad o Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd

Ystyriodd y Panel Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Roedd yr adroddiad yn darparu manylion y Canlyniadau Strategol a chanlyniadau arolwg annibynnol i asesu cynnydd yn erbyn darpariaeth y canlyniadau. Yn ogystal â hyn, roedd yr adroddiad yn darparu manylion y digwyddiadau, prosiectau a'r cyfarfodydd yr oedd y Comisiynydd wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn.

Mewn Perthynas â 'Gwelededdd a Hygyrchedd yr Heddlu' oedd yn un o'r canlyniadau strategol a amlygwyd yn yr adroddiad, holodd y Panel am leihad yn nifer y Rheolwyr Rhawd Gymunedol (CBM) a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO).

Gofynnodd y Panel am fwy o wybodaeth ynglŷn â darpariaeth y CBMau a'r PCSOau yn ardal yr heddlu a diweddariad ynglŷn â'r cynllun peilot yn y Rhyl.

### Argymhellion

**(a) Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru'n derbyn Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2013/14.**

**(b) Bod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn hysbysu'r Prif Gwnstabl ynglŷn â phryderon y Panel mewn perthynas â'r gostyngiad yn nifer y Rheolwyr Rhawd Gymunedol a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn yr ardal, ac y darperir mwy o wybodaeth ynglŷn â rôl y Rheolwyr Rhawd Gymunedol yn y cyfarfod nesaf.**